**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

7 Ionawr 2019

Annwyl Lynne

**Ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr, rhoddais dystiolaeth ynghylch Bagloriaeth Cymru ac addewais ddarparu gwybodaeth bellach i aelodau'r Pwyllgor – ysgrifennaf, felly, i'r perwyl hwnnw.

Yn ystod y sesiwn, trafodwyd amodau mynediad i brifysgolion a sut y mae gwahanol brifysgolion yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau yn eu cynigion. Awgrymwyd hefyd bod rhai ysgolion a cholegau yn eithrio dysgwyr o'r Dystysgrif Her Sgiliau er mwyn caniatáu mwy o amser i astudio pedwar neu bump bwnc Safon Uwch. Esboniais fod nifer o brifysgolion Grŵp Russell, yn enwedig, eisiau dysgwyr sydd â thri chymhwyster Safon Uwch da ac nad oes angen i ysgolion a cholegau roi pwysau ar ddysgwyr i ymgymryd â phedwar neu bum pwnc Safon Uwch.

Cyfeiriais at ymchwil yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, sef ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt[1]. Mae hwnnw yn nodi bod y tair gradd Safon Uwch uchaf ym mhob pwnc, ac eithrio Astudiaethau Cyffredinol a Meddwl yn Feirniadol, yn cael eu defnyddio at ddibenion sgorio. Dengys yr adroddiad hefyd bod 297 cais wedi dod i Brifysgol Caergrawnt gan fyfyrwyr o Gymru yn ystod 2017. O'r rheini, gwnaed cynnig i 76 a derbyniodd 60 ymgeisydd ei le.

Mae adran dderbyniadau Prifysgol Caergrawnt yn nodi'r canlynol hefyd:

- cynnydd o 21% mewn ymgeiswyr o ysgolion gwladol Cymru ers i'r Rhwydwaith Seren gychwyn;

[1]https://www.undergraduate.study.cam.ac.uk/sites/www.undergraduate.study.cam.ac.uk/files/publications/ug_admissions_statistics_2017_cycle_4.pdf

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- 26.51% oedd y gyfradd gynnig ar gyfer ysgolion gwladol Cymru. 26% oedd cyfartaledd y DU a'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan oedd 25.5%.

Fel y dywedais yn y sesiwn, yn gyffredinol mae prifysgolion ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys prifysgolion Grŵp Russell, yn gadarnhaol iawn ac yn derbyn y Dystysgrif Her Sgiliau at ddibenion gofynion mynediad. Mae'r prifysgolion hynny nad ydynt yn derbyn y Dystysgrif Her Sgiliau fel gofyniad mynediad penodol yn rhoi gwerth ar y sgiliau a'r profiadau ehangach y mae'n eu rhoi i berson ifanc – gall y Dystysgrif gyfoethogi ceisiadau.

Pan ymwelais â Chaergrawnt a Rhydychen y llynedd, cadarnhaodd y ddwy brifysgol eu bod yn cydnabod y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, roeddent yn cydnabod bod y Dystysgrif yn rhoi cyfle i fyfyrwyr o Gymru ddatblygu eu sgiliau academaidd a'u sgiliau ymchwil, yn enwedig drwy eu prosiectau ymchwil annibynnol. Efallai bod yr Aelodau wedi gweld y  stori ddiweddar yn mhapur newydd y Times, a oedd yn sôn am y duedd yn Lloegr i fwy o ysgolion gynnig y Cymhwyster Prosiect Estynedig, fel bod myfyrwyr yn gallu dangos sgiliau ymchwil a sgiliau meddwl beirniadol yn eu ceisiadau i brifysgolion. Yma yng Nghymru, rydym ymhell ar y blaen yn hyn o beth, diolch i'n dull gweithredu o gefnogi'r Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, sy'n meithrin llawer o’r sgiliau hyn, a llawer mwy.

Mae gwefan CBAC yn cynnwys yr wybodaeth ddiweddaraf am brifysgolion sy'n derbyn y Dystysgrif Her Sgiliau[2] ac mae'r astudiaethau achos a gyhoeddwyd yng nghylchlythyrau CBAC[3] yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y gall y Dystysgrif Her Sgiliau, ac yn fwy penodol, y sgiliau mae'n eu meithrin, helpu dysgwyr i fynd i'r brifysgol.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

[2] https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/higher-education/
[3] https://www.wjec.co.uk/qualifications/welsh-baccalaureate/welsh-bacc-from-2015/?language_id=2